Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG
20 TACHWEDD 2026

TEITL: DIWEDDARIAD CYNLLUNIO TRAFNIDIAETH RANBARTHOL TACHWEDD 2026

AWDUR: Y Cynghorydd David A Bithell, Cadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol
Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw:

- Gofyn am gymeradwyaeth gan y CBC ar gyfer y rhaglen ddrafft o gynlluniau ar gyfer cyllid o'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer blwyddyn ariannol 2027/28
- Hysbysu'r CBC o waith yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a nodwyd yn yr Adroddiad Chwe Mis

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gymeradwyo'r Rhaglen Gynlluniau ddrafft i'w hariannu drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol yn 2027/28 i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

2.2 Ni cheisir unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r Adroddiad Chwe Mis, gofynnir i'r pwyllgor nodi'r adroddiad.

3. RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1 Ymhellach i ganllawiau ariannu Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru, mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig gyfrifoldeb am ddatblygu Rhaglen o Gynlluniau pum mlynedd i'w hariannu gan y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol ac am ymgymryd â rheolaeth yn ystod y flwyddyn o'r arian grant sy'n cael ei wario.

3.2 Mae Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn ei gwneud yn ofynnol bod adroddiad diweddaru yn cael ei gynhyrchu ddwywaith y flwyddyn ar gyfer y CBC.

4. RHAGLEN GYNLLUNIAU'R GRONFA TRAFNIDIAETH RANBARTHOL

4.1 Yn sgil ei gyfrifoldeb am Gynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol, mae'r CBC yn gyfrifol am flaenoriaethu a rheoli'r rhaglen o gynlluniau a fydd yn cael ei chyflawni drwy gyllid gan y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol yng ngogledd Cymru yn 2027/28.

4.2 Cyflwynwyd y rhestr arfaethedig o gynlluniau i'w hariannu i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol ar 2 Tachwedd 2026.

4.3 Mae Uchelgais Gogledd Cymru, gyda chymorth ymgynghoriaeth gan Arup, wedi gweithio'n agos gyda swyddogion awdurdodau lleol ac Aelodau sy'n ddeiliaid portffolio ledled y rhanbarth i nodi rhaglen o gynlluniau ar gyfer 2027/28. Mae Llywodraeth Cymru a swyddogion Trafnidiaeth Cymru hefyd wedi bod yn ymgysylltu yn ystod y broses hon.

4.4 Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i gyd-fynd â chyllideb ddangosol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, sydd i'w gweld yn Nhabl 1. Dyma'r un gyllideb gyfalaf a ddarparwyd i ogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, ac nid yw'n cynnwys unrhyw gynnydd ar gyfer chwyddiant nac unrhyw newidynnau eraill. Nid yw'r gyllideb ddangosol yn cynrychioli dyraniad neu ymrwymiad cyllido y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r rhaglen derfynol a'r cynlluniau unigol yn parhau i fod yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

Rhanbarth y CBC	Cyfalaf (£)	Refeniw (£) (Diogelwch Ffyrdd a Newid Ymddygiad)	Refeniw (£) Gweinyddu'r CBC	Cyfanswm (£)
Gogledd Cymru	28.3m	384k	0.1m	28.784m

Tabl 1

4.5. Wrth roi'r rhaglen gynlluniau at ei gilydd, roedd y newidynnau a ganlyn ymysg yr ystyriaethau allweddol:

- Blaenoriaethu parhad y cynlluniau a ariannwyd eleni sy'n cael eu cyflawni ar draws sawl blwyddyn
- Polisïau a dyheadau RTP
- Blaenoriaethau'r RTDP a'r awdurdod lleol
- Cyflawnadwyedd cynlluniau

4.6. Dangosir y rhaglen gynlluniau ddrafft ar gyfer 2027/28, y ceisir cymeradwyaeth ar ei chyfer, yn Atodiad A.

5. CAMAU NESAF Y GRONFA TRAFNIDIAETH RANBARTHOL

5.1. I sicrhau cydymffurfiaeth ag amserlenni Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd rhaglen ddrafft yn unol ag Atodiad 1 i Lywodraeth Cymru ar 30 Hydref.

5.2 Yna, bydd Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru yn adolygu'r drafft ac yn rhoi sylwadau yn ôl erbyn 18 Rhagfyr. Wedyn, bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac Arup yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ymateb i sylwadau cyn cyflwyno fersiwn terfynol erbyn 30 Ionawr 2027.

5.3. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r rhaglen ac yn anfon llythyrau o gynnig at awdurdodau lleol erbyn diwedd mis Mawrth 2027, a bydd awdurdodau lleol yn dechrau cyflawni'r cynllun o fis Ebrill 2027. Bydd cyllid y cynllun yn cael ei ddyfarnu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru.

6. ADRODDIAD CHWE MIS YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

6.1. Mae Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn nodi y bydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn paratoi adroddiad ddwywaith y flwyddyn ar ei waith ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

6.2. Cyd-destun adroddiad o'r fath yw sicrhau bod gwaith yr Is-bwyllgor yn agored ac yn dryloyw a bod ei swyddogaethau'n cael eu cyfathrebu'n glir.

6.3. Mae'r Cylch Gorchwyl yn darparu y bydd adroddiadau chwe mis yn ffurfio rhan o brotocol craffu cytunedig ac y byddant ar ffurf a fydd yn hwyluso eu cyflwyno i drefniadau Craffu neu drefniadau llywodraethu eraill fel y pennir hwy gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

6.4. Atodir yr Adroddiad Chwe Mis fel Atodiad B. Mae'n cynnwys manylion am:

- Y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol 2025/26
- Ymatebion i'r Ymgynghoriad a anfonwyd at sefydliadau partner
- Perfformiad ariannol
- Rheoli Adnoddau.

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Bydd cyllid o'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer cyflawni cynlluniau yn cael ei ddyfarnu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol felly nid yw'n cael unrhyw effaith ariannol uniongyrchol ar y CBC.

7.2. Er mwyn cefnogi a darparu adnoddau ar gyfer y gwaith o gydlynu a gweinyddu i'r CBC, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn caniatáu i'r CBC hawlio cost cefnogi rheoli rhaglen o gyllideb yr RTF yn flynyddol. Gwneir hyn i osgoi dosrannu costau ar gyfer rheolaeth gyffredinol y CBC o'r rhaglenni i bob prosiect ac i alluogi arbedion maint. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i bob awdurdod ganolbwyntio ar ddylunio a chyflawni'r cynlluniau. Dangosir swm y cyllid arfaethedig i'w hawlio gan y CBC yn y ffigyrau yn Atodiad A.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o Ganllawiau a Chyfarwyddiadau Desg i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn iddynt ddatblygu eu Rhaglen Cynlluniau ar gyfer 2027/28. Mae'r rhaglen sydd i'w gweld yn Atodiad 1 wedi'i datblygu yn unol â'r canllawiau hynny.

ATODIADAU:

Atodiad A – Rhaglen Ddrafft o Gynlluniau ar gyfer Cyllido'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol
Atodiad B – Adroddiad Chwe Mis yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Mae'r Rhaglen Cynlluniau arfaethedig wedi'i datblygu o fewn cyfrifoldebau cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol y CBC ac yn unol â chanllawiau a chyfarwyddiadau desg perthnasol Llywodraeth Cymru.

Mae cymeradwyo'r rhaglen ddrafft i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac nid yw'n gyfystyr â chymeradwyaeth derfynol y cynlluniau unigol na'r dyraniadau cyllid, sy'n parhau i fod yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a'r trefniadau grant a sicrwydd perthnasol. Nid oes unrhyw faterion cyfreithiol penodol yn codi o'r argymhelliad a geisir.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i’r penderfyniad a geisir, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn nodi’r rhaglen waith, a’r dyraniad o gyllid refeniw a chyfalaf i’r cynlluniau ynddi. Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiadau i’r penderfyniad a geisir; bydd cyllid ar gyfer y cynlluniau unigol yn cael ei ddyfarnu’n uniongyrchol i’r awdurdodau lleol a bydd y Gwasanaeth Cyllid yn parhau i gefnogi Uchelgais Gogledd Cymru yn ôl yr angen wrth weinyddu costau cymorth rheoli’r rhaglen a gedwir."